

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar y 31ain Fawrth 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Janet Charlton, Neil Pringle, Mari M Mathews
Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Dyfed Jones.

Aelod Newydd

Croesawyd Mari M Mathews, Olif, Plas Derwen, Betws-y-Coed yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

Datgan diddordeb. Datganwyd diddordeb gan Mari M Mathews yn cofnod 2.6, a ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth ynglun a'r mater.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 23ain Cwefror2021

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Nodwyd nad oedd datblygiadau pellach. Dywedodd y clerc nad oedd ymateb wedi ei dderbyn oddiwrth APCE i ffurflen gais yn ceisio cyngor ynglun a'r datblygiad.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan/ Darparu Gwasanaethau

Nodwyd y sylwadau gan Scottish Power trwy law y Cyng Elisabeth Roberts. Cytunodd y Cyng Neil Pringle i drefnu cyfarfod ar y safle gyda'r trydanwr Gethin Clwyd. Dywedodd y Cyng Mari M Mathews y buasai'n gwneud ymholiad ynglun Crofa'r Gymuned gan Scottish Power.

[1.3] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy

Penderfynwyd adolygu'r mater pan ddaw cyfyngiadau cofid i ben

[1.4] Pont y Mwynwyr

Cyfeiriodd y clerc at ddiweddariad gan Gyngor BS Conwy fod y bont wedi ei dylunio i atal difrod gan lifogydd.

[1.5] Camerâu Cylch Agos Pentre' Du

Nodwyd nad oedd yn bosib gwneud trefniadau ar hyn o bryd o ganlyniad coronofeirws

[1.6] Dosbarthu Gwybodaeth yn Lleol

Eglurodd y clerc y bydd cost o £50.00 ar gyfer gosod tudalen wybodaeth ar safle we y Cyngor. Y clerc i drafod trefniadau ymhellach gyda rheolwr y safle.

[1.7] Siop Climber a Rambler

Dywedodd y Cyng E Roberts ei bod yn disgwyl ateb gan Richard Thomas APCE. Eglurodd hefyd y byddai'n cysylltu gyda Cyngor BS Conwy ynglun au polisi ar gyfer adeiladau gwag.

[1.8] Gwasanaeth Sgip

Y clerc i wneud ymholiad ar gyfer gwasanaeth misol bob yn ail rhwng Pentre Du a Ffordd yr Orsaf.

[1.9] Goleuadau Stryd

Nodwyd bod y mater yn parhau

[2] Atgyweirio'r Neuadd Goffa

Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir. Cytunodd y Cyng E Roberts i wneud ymholiadau.

[2.1] Erydiad ar Fin yr Afon Llugwy o Faes Parcio'r Royal Oak i gyfeiriad y Ganolfan Groeso

Nodwyd ateb gan Mr Glenn Evans yn cadarnhau fod y ffens yn gadarn ac y byddai'n cadw golwg ar y sefyllfa.

[2.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Dywedodd y Cyng E Roberts fod Mari Tudur yn bwriadu cysylltu gyda'r Cyngor.

[2.3] Cilfan Ffordd A470 gyferbyn a'r rhaeadr wrth ymyl Pont Waterloo

Nodwyd nad oedd y Cyngor Sir wedi ymateb i gais y CC i ddarparu bin yn y gilfan.

[2.4] Caffi'r Rheilffordd Fach

Dywedodd y clerc fod perchnogion y busnes yn bwriadu gwneud gwaith cynhaliath cyn agor y caffi. Gan nodi cyflwr gweddill y cerbydau cludiant, y clerc i anfon at Adran yr Amgylchedd ynglyn a'r mater.

Y Brif Agenda

[2.5] Sedd Wag

Cyfeiriodd y clerc at gais am y sedd wag gan Ms Catherine Williams, Bryn Gwynt, Betws-y-Coed

Penderfynwyd gwahodd Ms Williams yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

[2.6] Materion Cynllunio

[a] [a] Cais ol-weithredol am newidiadau a newid defnydd adeilad allanol yn allfa bwyd a diod ynghyd a chodi 4 pod pren wedi eu gorchuddio i fwyta allan.

Penderfynwyd datgan pryder ynglun a lefel y swm or lleoliad os i'r cynnig gael ei gymeradwyo. Y clerc i amlinellu pryder y Cyngor a bod y mater yn cael sylw gan APCE pan fyddant yn trafod y cynnig.

[b] Ail ddatblygu'r gwesty gan gynnwys dymchwel rhan ohno, newidiadau ac estyniadau i'r gwesty presennol ayb. Gwesty'r Waterloo, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oes gwrthwynebiad, y clerc i atgoffa APCE ynglyn ac ymestyn y llinellau melyn presennol.

[2.7] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer Mawrth/Chwefror 2021

[b] Nodwyd bod y Rhaeadr Ewynnol wedi cau o galyniad coronafeirws

[c] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol. Cyfeiriodd y clerc at y sylwadau canlynol;

Nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi hysbysiad o ymarfer etholwyr ar ei wefan yn ystod y cyfnod hysbysu.

Y clerc i nodi a gweithredu ar gyfer archwiliad yn y dyfodol

[2.8] Materion Parcio Pentre Du

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Mr Niall Collins 15 Bro Gethin ynlyn a thrafferthion parcio yn yr ystad. Dywedodd y Cyng E Roberts y byddain'n trefnu i gwrdd a rheolwr cymdogaeth Cyngor BS Conwy i drafod y mater.

[2.9] Ymgynhoriad Meusydd Parcio APCE

Nodwyd cynnig i greu meusydd parcio ychwanegol yn y pentre. Y clerc i ateb fod y Cyngor yn gwrthwynebu'n gryf i greu meusydd parcio ychwanegol i hwyluso parcio ym Mhen y Gwryd ac Ogwen sydd 15 milltir o Fetws-y-Coed

[3] Trefydd Taclus

Rhoddyd sylw i fenter a amlinellwyd gan y Cyng Elisabeth Roberts sef cyswllt wifi o ganol tref neu bentre fyddai'n mesur y troedio lleol. Penderfynwyd ymuno a'r cynllun ond ddim i gymryd cyfrifoldeb blaenllaw am y prosiect.

[3.1] Materion y Pentre

Mynegwyd bryder gan y Cyng Mari M Mathews ynglyn a'r rheiliau rhydd ar bont droed y rheliffordd. Cytunodd y Cyng E Roberts godi'r mater gyda Network Rail.

Y clerc hefyd i gysylltu Gyda Cyngor BS Conwy ynglyn a adolygiad strwythur Pont-y-Soldiwr

[3.2] Y Neuadd Goffa/ Mesurau Rhag Tan

Eglurodd y clerc bod Snowdonia Fire & Safety yn argymhell nifer o welliannau sydd yn anghenreidiol i godi safonau rhag tan yn yr adeilad.

Roedd amcan bris o £2831.00 i wneud y gwaith. Penderfynwyd i fwrw'n mlaen yn unol ar argymhellion.

Cadeirydd _____